## Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

## CYP(4)-16-12 Papur 1

## Gofal Newyddenedigol - Tystiolaeth i'r Pwyllgor – Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Diben y Papur**

Rhoddais ddiweddariad i'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ym mis Chwefror 2012 ar y sefyllfa gyfredol yn erbyn pob un o'r argymhellion yn adroddiad y Pwyllgor blaenorol. Mae'r papur hwn yn darparu rhagor o ddiweddariadau ar weithredu ers mis Chwefror ac yn cadarnhau fy nisgwyliadau o'r Byrddau Iechyd Lleol (BILl) cyn cyflwyno fy nhystiolaeth lafar ar 31 Mai.

**Cefndir**

Mae'r BILlau yn gyfrifol am sicrhau a chyllido gofal newyddenedigol sy'n ddiogel, yn gynaliadwy ac o ansawdd uchel ar draws Cymru. Ar gyfer gofal dwys a gofal dibyniaeth uchel a ddarperir yng Nghaerdydd ac Abertawe, mae BILlau yn cyflawni'r swyddogaeth hon drwy eu gwaith cynllunio ar y cyd ar Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru. Caiff gwasanaethau babanod gofal dibyniaeth uchel a gofal arbennig eraill eu cynllunio a'u sicrhau gan BILlau unigol.

Yn 2010, cyhoeddodd y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol blaenorol gyfres o argymhellion yn dilyn ei ymchwiliad i ofal newyddenedigol. Derbyniodd y Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar y pryd yr argymhellion hyn a rhoddwyd y dasg i BILlau weithredu ar unwaith, gyda chefnogaeth Rhwydwaith Newyddenedigol Cymru Gyfan, is-bwyllgor o Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru.

Mae'r Rhwydwaith wedi cyhoeddi 6 archwiliad misol o gydymffurfiaeth â safonau, ac wedi dangos cryn gynnydd ym mhob ardal yng Nghymru ond ceir nifer o ardaloedd risg uchel o hyd, yn enwedig o ran staffio nyrsys a meddygon a'r defnydd o gotiau aciwt (diffyg cydweddu gyda babanod dibyniaeth isel mewn cotiau dibyniaeth uchel) .

**Gweithredu ers y diweddariad diwethaf i'r Pwyllgor ym mis Chwefror 2012**

Er gwaethaf peth gwaith da sydd wedi'i wneud, rwyf i'n dal i fod yn anfodlon â chyflymder cyffredinol y gwelliannau mewn gwasanaethau newyddenedigol ar draws Cymru, yn enwedig yn nhermau cydymffurfio â Safonau Newyddenedigol Cymru Gyfan a lefelau staffio yn dilyn yr ail adolygiad capasiti. Ceir problemau gyda defnydd gwael o gotiau aciwt sy'n cynnig potensial am ffurfweddiad mwy effeithlon i'r cotiau, a lleihau'r angen i gludo mamau beichiog allan o Gymru i esgor.

Felly fe ysgrifennais i at Gadeiryddion y BILlau ym mis Chwefror yn mynegi fy mhryderon a'm disgwyliad y byddai BILlau yn cymryd camau brys i sicrhau bod risgiau a phroblemau gweithrediadol yn cael eu datrys. Yn ogystal ysgrifennodd David Sissling, Prif Weithredwr GIG Cymru, at Brif Weithredwyr y BILlau i geisio sicrwydd ysgrifenedig bod ganddynt gynlluniau gweithredu newyddenedigol effeithiol i fynd i'r afael â'r risgiau a'r problemau hynny a ganfuwyd gan yr adolygiad o gapasiti a lefelau staffio a arweiniwyd gan Rwydwaith Newyddenedigol Cymru Gyfan. Gofynnwyd i'r BILlau weithredu ar frys i ddiweddaru eu cynlluniau gweithredu a chyflwyno eu cynlluniau iddo.

## Y Sefyllfa Gyfredol

Yn gyffredinol nid yw'r cynlluniau gweithredu'n ymdrin yn llawn â'r holl broblemau, gan gynnwys yr angen i aildrefnu gwasanaethau cyfredol i sicrhau ei bod yn cael eu defnyddio'n effeithiol ac yn effeithlon. Mae trefniadau gofal newyddenedigol yn ganolog i drefniadau gwasanaethau obstetrig a phaediatrig ac felly rhaid iddynt fod yn rhan o'r cynlluniau ehangach i aildrefnu gwasanaethau sy'n cael eu datblygu gan y BILlau ar gyfer ymgynghori yn ddiweddarach eleni. Nid yw'r cynlluniau gweithredu yn cydnabod hyn yn ddigonol nac yn dangos y lefel angenrheidiol o gydweithio ar y mater gyda BILlau cyfagos.

Er mwyn darparu arweiniad a chyfarwyddyd strategol, bydd uwch weithwyr proffesiynol Llywodraeth Cymru a Chlinigwr Arweiniol y Rhwydwaith Newyddenedigol yn cyfarfod â BILlau yn Ne Orllewin Cymru, De Ddwyrain Cymru a BILl Prifysgol Betsi Cadwaladr dros yr wythnosau nesaf i ddatblygu'r cynlluniau ymhellach. Bydd y broses hon yn ceisio canfod 'enillion cyflym' o flaen yr angen i ymgynghori ar aildrefnu a gwneud y defnydd gorau o adnoddau sy'n bodoli eisoes.

Bydd gofyn iddynt archwilio llawer o'r materion a godwyd yn flaenorol gan y Pwyllgor gan gynnwys:

- lefelau staffio a gweithgaredd i ddiwallu gofynion y dyfodol
- canllawiau ar gymarebau staffio mewn cydymffurfiaeth â Chymdeithas Meddygaeth Amenedigol Prydain fel y'i gwelir yn Safonau Newyddenedigol Cymru Gyfan
- cyflenwi a monitro Safonau Newyddenedigol Cymru Gyfan
- defnydd o gotiau, effeithlonrwydd o ran cotiau aciwt a gwasanaethau cefnogol
- hyfforddi staff

Mae trefniadau gwasanaethau newyddenedigol y dyfodol yn cael eu trafod o fewn tair ardal cynllunio – Hywel Dda, De Cymru a Betsi Cadwaladr – gyda phob un yn cydweithio â BILl Powys ac awdurdodau ffiniol eraill. Mae'r rhanbarthau hyn i gyd yn ymgysylltu'n eang â staff clinigol, ac yn achos Hywel Dda, â'r cyhoedd. Bydd cynlluniau'n cael eu datblygu ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod haf neu hydref 2012. Mae'r amserlen hon yn angenrheidiol i sicrhau proses ddyladwy wrth ad-drefnu'r gwasanaeth.

Bydd pob sefydliad yn gorfod cyflwyno ei gynlluniau i'w craffu gan y Fforwm Clinigol Cenedlaethol. Mae'r fforwm yn cynnwys cynrychiolaeth o Grwpiau Ymgynghorol Arbenigeddau Cenedlaethol ar Iechyd Plant, Iechyd Menywod a Choleg Brenhinol y Bydwragedd. Neilltuwyd y sesiwn a gynhaliwyd ym mis Ebrill 2012 i'r gwasanaethau paediatrig ac roedd yn cynnwys trafodaethau helaeth am yr heriau o fewn y gwasanaethau newyddenedigol. Nid oes cynlluniau llawn ar gyfer y gwasanaethau newyddenedigol ar gael eto ar gyfer y craffu annibynnol hwn.

## Cynnydd Rhwydwaith Newyddenedigol Cymru Gyfan

Roedd fy mhapur i'r Pwyllgor ym mis Chwefror yn egluro'r gwaith sylweddol a wnaed gan y Rhwydwaith Newyddenedigol ers iddo gael ei sefydlu yn 2010.

Ymhlith y llwyddiannau allweddol mae:

- cyflwyno system lleoli cotiau i helpu i wneud y defnydd gorau o gapasiti gofal critigol ar draws Cymru a chynorthwyo unedau unigol i hwyluso trosglwyddo yn ogystal â chynorthwyo i ddychwelyd babanod i'w cartrefi;

- cyflwyno system gwybodaeth glinigol BadgerNet drwy Gymru gyfan yn 2011, sydd bellach ym mhob uned yng Nghymru. Mae'r holl unedau Newyddenedigol wedi ymrwymo i gyflwyno data i'r Rhaglen Archwilio Newyddenedigol Genedlaethol Flynyddol yn 2012 a fydd yn caniatáu cymhariaeth uniongyrchol yng Nghymru â gwasanaethau yn Lloegr. Rwyf i'n disgwyl i'r BILlau ddefnyddio'r adroddiad archwilio hwn i gynorthwyo eu gwaith cyfredol i wneud gwelliannau buan i'r gwasanaethau ac rwyf i'n disgwyl i GIG Cymru gyfranogi yn archwiliad 2012;

- ym mis Ionawr 2011, dechreuodd gwasanaethau trosglwyddo newyddenedigol yng Ngogledd a De Cymru, gan ddarparu timau trosglwyddo penodol sy'n gallu casglu babanod yn y cyfnod o 12 awr 8.00 am - 8.00 pm. Gweithiodd y Rhwydwaith Newyddenedigol gyda Gwasanaeth Ambiwlans Cymru ar gynllunio a chaffael ambiwlans a chriw penodol yn ne Cymru. Ym mis Gorffennaf 2011, fe lansiais i'r Gwasanaeth Trosglwyddo Newyddenedigol Aciwt Rhwng Ysbytai yn swyddogol. Yng Ngogledd Cymru mae'r tîm yn parhau i ddefnyddio gwasanaethau Ambiwlans Cymru gan nad oedd nifer y trosglwyddiadau yn golygu bod angen cerbyd penodol. Mae'r ddau wasanaeth yn adrodd canlyniadau rhagorol ac yn ystod chwarter cyntaf 2012, cafwyd 133 trosglwyddiad yn Ne Cymru a 18 yng Ngogledd Cymru. Mae nifer y trosglwyddiadau gan dimau trosglwyddo Lloegr wedi lleihau'n sylweddol ers i'r gwasanaeth Cymreig ddod yn weithredol. Mae'r rhwydwaith yn dal i fonitro capasiti'r gwasanaeth trosglwyddo 12 awr ac mae'r Grŵp Llywio Cenedlaethol yn disgwyl cael diweddariad ym mis Gorffennaf 2012.

Byddaf yn parhau i fonitro gweithredu Byrddau Iechyd Cymru i fynd i'r afael â diogelwch, cynaladwyedd ac ansawdd gofal i'r newyddenedigol a'u gwella.